# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod

| | |
|---|---|
| Teitl y grŵp trawsbleidiol: | Y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid |
| Dyddiad y cyfarfod: | 8 Mehefin 2023 |
| Lleoliad: | Cyfarfod Hybrid – HMS Cambria, Bae Caerdydd ac ar Microsoft Teams |

**Yn bresennol:**

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Darren Millar AS | Cadeirydd a'r Aelod dros Orllewin Clwyd |
| Alun Davies AS | Is-Gadeirydd a'r Aelod dros Flaenau Gwent |
| Mark Isherwood AS | Aelod dros Ogledd Cymru |
| James Evans AS | Yr Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed |
| Laura Anne Jones AS | Aelod dros Ddwyrain De Cymru |
| Peter Fox AS (o bell) | Yr Aelod dros Fynwy |
| Y Brigadydd Jock Fraser | Y Llynges Frenhinol |
| Comodor yr Awyrlu Dai Williams (o bell) | Yr Awyrlu Brenhinol |
| Lefftenant-gyrnol Nicholas Lock OBE | 160fed Brigâd (Cymru) |
| Cyrnol Sion Walker | 160fed Brigâd (Cymru) |
| Jeremy Fowler | Pennaeth Cangen Treftadaeth y Fyddin, y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Rob Wilson | Llywodraeth Cymru |
| Peter Evans (o bell) | Llywodraeth Cymru |
| Adrian Leslie | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Cyrnol Dominic Morgan (o bell) | Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid dros Gymru (*RFCA*) |
| Millie Taylor | Cynorthwyydd Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru |

| | |
|---|---|
| Joanna Wolfe | Cynorthwydd Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru |
| Emilee Kinsey | Cynorthwydd Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru |
| Y Cynghorydd Teresa Heron | Hyrwyddwr Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog (Caerffili) |
| Lisa Rawlings | Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog (Gwent) |
| Tina Foster (o bell) | TGP Cymru |
| Will Peltor (o bell) | 160fed Brigâd (Cymru) |
| Beth Taylor | Staff Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig |
| Tom Livesey | Staff Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig |
| Tara Moorcroft (o bell) | Swyddfa Darren Millar |
| Charlotte Raymond | Swyddfa Darren Millar |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Sam Rowlands AS | Aelod dros Ogledd Cymru |
| Samuel Kurtz AS | Yr Aelod dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Llyr Gruffydd AS | Aelod dros Ogledd Cymru |
| Jack Sergeant AS | Yr Aelod dros Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Mike Hedges AS | Yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe |
| Joel James AS | Aelod dros Ganol De Cymru |
| Rhianon Passmore AS | Yr Aelod dros Islwyn |
| Cyrnol James Phillips | Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru |
| Graham Jones | Woody's Lodge |
| Abigail Warburton | Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog (Dwyrain De Cymru) |
| Andy Jones | Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog (Powys) |
| Zoe Roberts | Cyfamod y Lluoedd Arfog ac Arweinydd Cydweithredol Gofal Iechyd i Gyn-filwyr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Y Cynghorydd Andrew Barry | Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Y Cynghorydd David Evans | Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd Glyn Haynes | Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Cyngor |

| | |
|---|---|
| | Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd Paul Hinge | Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Philip Hughes | Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Y Cynghorydd Julie Matthews | Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd Elizabeth Roberts | Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd Delyth Williams | Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd Eddie Williams | Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Cyngor Bro Morgannwg |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau.

2. Diweddariadau.
    - Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd i’r Grŵp.
    - Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'r ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) – a dderbyniwyd ac a rannwyd gydag aelodau – yn dilyn y cyfarfod diwethaf.
    - Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o ymateb Llywodraeth Cymru ar ôl i Gwestiynau Seneddol Ysgrifenedig gael eu cyflwyno yn dilyn y cyfarfod diwethaf.
    - Talodd y Cadeirydd deyrnged i Ysgol Pen y Bryn, Bae Colwyn, wnaeth gael eu Gwobr Arian drwy raglen Ysgolion sy’n Cefnogi’r Lluoedd Arfog.
    - Diweddarodd y Cadeirydd y grŵp i gynghori ei fod wedi gofyn i Lywodraeth Cymru – drwy Gwestiwn Llafar yn y Senedd – pa waith y maent yn ei wneud i hyrwyddo'r rhaglen yn fwy eang, er mwyn ennyn diddordeb ysgolion eraill. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru.
    - Diolchodd Millie Taylor i'r Cadeirydd am godi hynny yn y Senedd, a llongyfarchodd Ysgol Pen y Bryn.
    - Dywedodd Mille Taylor y dylai arolygwyr Estyn adrodd ar blant milwyr mewn addysg, a’r camau a gymerir gan ysgolion er mwyn diwallu eu hanghenion, ond nid oeddent yn siŵr i ba raddau yr oedd hynny’n cael ei wneud.
    - **Dywedodd Millie Taylor y byddai'n cynnal gwaith dilynol ar hyn gydag Estyn ac y bydd yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Trawsbleidiol.**

- At hynny, bu Millie Taylor yn trafod yr angen am fwy o ymwybyddiaeth o’r cynllun yn y Weinyddiaeth Amddiffyn, er mwyn annog cenhedloedd eraill y DU i'w fabwysiadu.

3. Trafodaeth ar Dreftadaeth Filwrol yng Nghymru gyda'r Cyrnol Sion Walker a'r Is-gyrnol Nicholas Lock, y ddau o 160fed Brigâd (Cymru).

   - Siaradodd y Cyrnol Sion Walker am Amgueddfa Frenhinol Cymru yn Aberhonddu, a'r angen i hyrwyddo'r hyn y maen nhw'n ei wneud.
   - Soniodd y Cyrnol Sion Walker bod llawer o ddarnau milwrol sydd ddim yn cael eu harddangos yng Nghymru ar hyn o bryd oherwydd diffyg Amgueddfa Filwrol Genedlaethol.
   - Canmolodd y Cyrnol Sion Walker yr arddangosfa deithiol ar gyfer Brwydr Prydain gan y Llu Awyr Brenhinol.
   - Cyflwynodd y Cyrnol Sion Walker Jeremy Fowler, Pennaeth Treftadaeth y Fyddin yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Rhoddodd drosolwg o amgueddfeydd y fyddin ar draws y DU, yr effaith y mae colli cyllid wedi'i chael arnynt, a'r arddangosfeydd niferus y gellid eu datblygu ar gyfer eitemau sy'n cael eu storio ar hyn o bryd.
   - Dywedodd Jeremy Fowler eu bod yn gweithio ar ystorfa ganolog bosibl ar gyfer casgliadau dros dro, fel nad ydynt yn cael eu gwyrdroi neu ddiflannu'n unig.
   - Cafwyd trosolwg gan y Lefftenant-gyrnol Nicholas Lock o Amgueddfa Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru yng Nghaernarfon a Wrecsam, a'r heriau y maent yn eu hwynebu o ran cyllid.
   - Siaradodd y Brigadydd Jock Fraser am ei rôl mewn perthynas â threftadaeth yn y Llynges Frenhinol a chadarnhaodd ei gefnogaeth i drafodaethau parhaus ynglŷn â'r amgueddfa a drafodwyd i’r tri gwasanaeth.
   - Canmolodd y Cadeirydd arddangosfa’r Llu awyr ar Frwydr Prydain, siaradodd am yr amgueddfeydd cenedlaethol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd, a phwysigrwydd cael amgueddfa filwrol genedlaethol i’r tri gwasanaeth yng Nghymru, yn enwedig o ystyried cyfraniad enfawr dynion a menywod y lluoedd arfog yng Nghymru i'r Lluoedd Arfog.
   - Yn ôl Rob Wilson o Lywodraeth Cymru, er bod y tîm yn gefnogol i dreftadaeth filwrol, mater i’r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, a CADW, yw hwn. Dywedodd Rob y byddai'n hapus i fod yn rhan o drafodaethau pellach ynghylch treftadaeth filwrol.
   - Gofynnodd Laura Anne Jones AS beth yw'r allgymorth gydag ysgolion ynghylch yr amgueddfeydd. Anogodd Rob Wilson LAJ i fynd ar drywydd hyn gyda'r Gweinidog Addysg. Rhoddodd y Cyrnol Sion Walker y wybodaeth ddiweddaraf am y mod y maen nhw'n ymgysylltu ag ysgolion.
   - Yn ôl Comodor yr Awyrlu Dai Williams, bydd arddangosfa Brwydr Prydain yn cael ei harddangos yn barhaol yn RAF y Fali. Dywedodd Comodor yr Awyrlu Dai

Williams ei fod wedi cael sgyrsiau gydag Amgueddfa Cymru, a rhannodd heriau y mae wedi'u hwynebu.

- Gofynnodd Andy Jones pa effaith fyddai yna ar amgueddfeydd milwrol preifat. Awgrymodd y Cadeirydd y dylent fod yn rhan o drafodaethau ehangach.
- Canmolodd yr Is-gadeirydd arddangosfa Brwydr Prydain, soniodd am ei brofiadau o ran ymweld ag amgueddfeydd a'r anhawster o gael mynediad atynt y tu allan i ranbarthau.
- Esboniodd yr Is-gadeirydd yr angen am weledigaeth ar gyfer yr amgueddfa dreftadaeth filwrol – a'r hyn yr hoffai gael ei gyflawni – a mynegodd y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gwaith i roi'r weledigaeth yn ei chyd-destun.
- Siaradodd y Brigadydd Jock Fraser am bwysigrwydd addysgu'r genhedlaeth iau a chenedlaethau’r dyfodol, a gwneud amgueddfeydd milwrol yn hygyrch.
- Cafwyd sylw gan Millie Taylor am bwysigrwydd cael ysgolion i ddod yn gyfeillgar i'r lluoedd arfog, drwy ymgysylltu â'r lluoedd arfog, a theimlai fod y sgwrs yn cysylltu â'r gwaith y mae Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru wedi bod yn ei wneud.
- Soniodd y Cynghorydd Teresa Heron fod grantiau ar gael gan y Lleng Brydeinig Frenhinol i athrawon, i'w hannog i gefnogi dyddiau cofio a gofynnodd a ellid cyflwyno cynnig tebyg i Lywodraeth Cymru.
- **Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ofyn am gyfarfod â Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ac y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol ysgrifennu i ofyn am astudiaeth ddichonoldeb i sefydlu Amgueddfa Filwrol Genedlaethol i Gymru.**
- **Cytunwyd y byddai'r Brigadydd Jock Fraser yn cysylltu â Chorfflu Meddygol yr Amddiffyn i sefydlu statws presennol Amgueddfa Meddygaeth Filwrol arfaethedig, a gynlluniwyd yn flaenorol ar gyfer Caerdydd.**
- **Cytunwyd y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i ofyn pa gamau oedd yn cael eu cymryd i sicrhau bod rôl y Lluoedd Arfog yn cael ei chydnabod yn briodol yn y cwricwlwm hanes newydd.**
- Trafododd y Cadeirydd a oes digon yn cael ei wneud i goffáu treftadaeth filwrol Cymru dramor.
- **Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu ymhellach â’r Lefftenant-gyrnol Nicholas Lock a Jeremy Fowler i archwilio sut y gellid gwella'r coffâd dramor.**

4. Y wybodaeth ddiweddaraf am waith Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yng Nghymru gan Lisa Rawlinson, Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog Gwent:

    - Cafwyd trosolwg gan Lisa Rawlings o'r meysydd a gwmpesir gan bob un o Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

- Yn ôl Lisa, mae disgwyl i Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog ddatblygu a chyfrannu at waith Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog o fewn eu grŵp o awdurdodau lleol.
- Dywedodd Lisa fod Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog hefyd yn ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned leol.
- Cafwyd wybod gan Lisa fod Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yn darparu hyfforddiant i staff, cefnogi prosiectau lleol, helpu i gefnogi sectorau cyhoeddus eraill a chynorthwyo gyda chymorth cyflogaeth.
- Rhoddodd Lisa drosolwg o rai digwyddiadau sydd wedi'u cynnal, a'r rheini fydd yn cael eu cynnal eleni.
- Cafwyd rhagor o wybodaeth gan Lisa am Hybiau Cyn-filwyr a'r prosiectau y maent yn ymgymryd â nhw. Dywedodd fod 50-70 o aelodau, ar gyfartaledd, yn bresennol bob wythnos, a bod hybiau ar agor i gymuned y lluoedd arfog, nid cyn-filwyr yn unig.
- Siaradodd Lisa am ddogfen Cyfeiriadur Cymorth y Lluoedd Arfog a chylchlythyr Cyfamod y Lluoedd Arfog, lle gall pobl hysbysebu a rhannu gwybodaeth.
- Rhoddodd Lisa drosolwg o'r materion y mae Swyddogion Cymorth y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu, gan gynnwys yr anghyfartaledd rhwng Byrddau Iechyd yng Nghymru, diffyg darpariaeth tai, diffyg gwybodaeth am Swyddogion Cymorth y Lluoedd Arfog a'r ansicrwydd o ran cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth y Lluoedd Arfog. At hynny, soniodd am y bylchau mewn gwasanaethau cyn-filwyr, yn dibynnu ar ranbarth.
- Soniodd Lisa hefyd am y materion y mae cyn-filwyr benywaidd yn eu hwynebu gan gynnwys diffyg mentoriaid benywaidd sy'n gymheiriaid. Tynnodd sylw at y Gynghrair i Gyn-filwyr Benywaidd, a grëwyd i ddarparu cefnogaeth bellach i gyn-filwyr benywaidd.
- Tynnodd y Cyrnol Sion Walker sylw at gynllun Menywod ym Maes Amddiffyn.
- Siaradodd y Cadeirydd am y diffyg ymwybyddiaeth o GIG Cymru i Gyn-filwyr a'r modd y mae'r rhaglen Change Step wedi newid.
- **Dywedodd y Cadeirydd wrth y Grŵp Trawsbleidiol ei fod yn cael cyfarfod gydag Adferiad yn ystod yr wythnosau nesaf i drafod Change Step, a bydd yn adrodd yn ôl i'r Grŵp.**
- Tynnodd Laura Anne Jones a'r Brigadydd Jock Fraser sylw at bwysigrwydd Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yng Nghymru, a diolchodd iddynt am eu gwaith.
- Soniodd Peter Evans o Lywodraeth Cymru am ddigwyddiadau cyflogaeth y Lluoedd Arfog a chadarnhaodd y bydd gwaith yn cael ei gynnal ar ddigwyddiad yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer 2024, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gefnogi gan y 160fed Brigâd (Cymru) a'r RFCA.
- Yn ôl Peter Evans o Lywodraeth Cymru, mae rhywfaint o waith yn mynd rhagddo ynglŷn â deddfwriaeth digartrefedd, ac mae panel arbenigol wedi'i sefydlu gan

Crisis Cymru. Mae Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog, ac elusennau o dan gadeiryddiaeth y Lleng Brydeinig Frenhinol, wedi cael cais i roi sylwadau.

- Canmolodd yr Is-Gadeirydd waith y Grŵp Trawsbleidiol a ysbrydolodd y syniad o greu rôl Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog, a phwysigrwydd gwneud y swyddi'n rhai barhaol.
- Soniodd Mark Isherwood am wasanaethau fel Adferiad a Woody's Lodge, a'r modd y mae Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yn eu cefnogi. Yn ogystal â hyn, cododd Mark bryderon ynghylch y cymorth sydd ar gael i weithwyr – er enghraifft, Byrddau Iechyd – i'w galluogi i gefnogi eu gweithwyr sy'n gyn-filwyr.
- **Cytunwyd y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y prinder ymwybyddiaeth am Gyn-filwyr GIG Cymru ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a'r angen am Hyrwyddwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog ym mhob Bwrdd Iechyd.**

5. Unrhyw fater arall

- Diolchodd y Cadeirydd i'r rheini oedd yn bresennol, ac edrych ymlaen at gydweithio â'r grŵp, wrth symud ymlaen.
- Cafodd y grŵp wybod gan y Cadeirydd fod ymweliad Pennaeth y Staff Amddiffyn â'r Senedd – a drefnwyd ar gyfer 14 Mehefin – wedi'i ohirio, a bydd dyddiad newydd yn cael ei ddosbarthu maes o law.
- Dywedodd y Cadeirydd wrth y grŵp y bydd Aelodau o'r Senedd yn ymweld â Chanolfan Alwadau Porth y Cyn-filwyr yn Nantgarw, bydd digwyddiad Diwrnod Milwyr Wrth Gefn yn cael ei gynnal yn y Senedd ar 21 Mehefin. At hynny, bydd Aelodau o'r Senedd yn mynd i safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan ym mis Gorffennaf fel rhan o Gynllun Lluoedd Arfog y Senedd.
- Rhannwyd dyddiadau'r cyfarfodydd i ddod gyda'r grŵp.
- Daeth y cyfarfod i ben gyda munud o dawelwch i goffáu'r 41 mlynedd ers bomiau Bluff Cove.